CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Is-ddeddfau ar gyfer tiroedd hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd

Is-ddeddfau Diwygio

Is-ddeddfau a wneir o dan Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas â'r Tiroedd Hamdden a enwir yn Rhannau I a III o'r Atodlen iddynt, ac o dan Adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906, mewn perthynas â'r Tiroedd Hamdden a enwir yn Rhan II o'r Atodlen ddywededig.

Enwi a Chychwyn

Enw'r is-ddeddfau hyn yw Is-ddeddfau Tiroedd Hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd 1975 (Diwygio) (Rhif 1) 2026 a byddant yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cânt eu cadarnhau gan y Cyngor.

Dehongli

1. Yn yr is-ddeddfau hyn drwyddynt draw, dyma fydd ystyr yr ymadroddion canlynol

   ystyr "*y Cyngor*" fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

   ystyr "*beic*" fydd beic dwy olwyn, beic tair olwyn neu beiriant tebyg arall;

   ystyr "*y llwybr beicio dynodedig*" fydd llwybr beicio o fewn y tiroedd neu drwyddynt, a neilltuir at ddiben penodedig, lle y caiff y llwybr a'i ddiben eu dynodi gan hysbysiadau a osodir mewn safle amlwg, sy'n berthnasol i'r tiroedd a restrir yn Rhan III o'r Atodlen;

   ystyr "*y tir hamdden*" fydd pob un o'r tiroedd hamdden a enwir yn yr Atodlen iddynt, ac eithrio pan fydd hynny'n anghyson â'r cyd-destun.

1.1 Oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol.

1.2 Oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd cyfeiriad at un rhywedd yn cynnwys cyfeiriad at y rhyweddau eraill. Bydd cyfeiriad at unrhyw rywedd yn cynnwys cyfeiriad at bob un o'r rhyweddau eraill.

Darpariaethau arbed

2. Ni thybir bod gweithred yn y tir hamdden gan un o swyddogion y Cyngor, neu gan unrhyw berson neu was i unrhyw berson a gyflogir gan y Cyngor, sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd yn briodol, yn drosedd yn erbyn yr is-ddeddfau hyn.

Amseroedd agor

3. Caiff y tir hamdden, ac eithrio'r tiroedd hamdden o'r enw Parc Victoria, Llansawel, a'r Gerddi Coffa Rhyfel, ei agor am 8 o'r gloch y bore bob dydd a'i gau un awr ar ôl machlud yr haul bob dydd drwy gydol y flwyddyn.

   AR YR AMOD bob amser na thybir bod yr is-ddeddf hon yn mynnu y caiff y tir hamdden ei agor a'i gau ar yr oriau a ragnodir uchod ar unrhyw ddiwrnod pan fydd y Cyngor yn cau'r tir hamdden i'r cyhoedd yn unol ag unrhyw ddarpariaeth statudol yn hynny o beth.

4. Ar unrhyw ddiwrnod pan fydd y tir hamdden y mae'r is-ddeddf a grybwyllwyd eisoes yn berthnasol iddo ar agor i'r cyhoedd, ni chaniateir i berson fynd i mewn iddo cyn yr amser a bennir yn yr is-ddeddf a grybwyllwyd eisoes na mynd i mewn iddo nac aros ynddo ar ôl hynny.

Amddiffyn adeileddau a dringo

5. Ni chaniateir i berson wneud y canlynol yn y tir hamdden
   i. Baeddu neu ddifwyno'n fwriadol, yn ddiofal neu'n esgeulus unrhyw wal neu ffens sydd yn y tir hamdden neu'n ei amgylchynu, neu unrhyw adeilad, rhwystr, rheilen, postyn neu sedd, neu unrhyw adeiledd neu addurn;
   ii. Dringo unrhyw wal neu ffens sydd yn y tir hamdden neu'n ei amgylchynu, neu unrhyw goeden, neu unrhyw rwystr, rheilen, postyn, neu adeiledd arall;
   iii. Tynnu neu symud yn fwriadol, yn ddiofal neu'n esgeulus unrhyw rwystr, rheilen, postyn, neu sedd, neu unrhyw ran o unrhyw adeiledd neu addurn, neu unrhyw offeryn a ddarperir i'w ddefnyddio i drefnu neu gynnal a chadw'r tir hamdden.

Anifeiliaid

6. Ni chaniateir i berson, ac eithrio yn unol â chytundeb cyfreithlon y Cyngor, neu fel arall wrth arfer unrhyw hawl neu fraint gyfreithlon, ddod â dim gwartheg, defaid, geifr, na moch, na'r un anifail tynnu neu bwn, i mewn i'r tir hamdden nac achosi i anifeiliaid o'r fath ddod i mewn iddo.

Beiciau a cherbydau

7.

i. Ni chaniateir i berson, ac eithrio wrth arfer unrhyw hawl neu fraint gyfreithlon, ddod â'r un ferfa, wagen, peiriant na cherbyd i mewn i'r tir hamdden nac achosi i gerbydau o'r fath ddod i mewn iddo, heblaw —

   a. beic dwy olwyn, beic tair olwyn neu beiriant tebyg arall;
   b. cadair olwyn neu bram a dynnir neu a wthir â llaw ac a ddefnyddir i gludo plentyn neu blant neu berson anabl yn unig:

Ar yr amod, lle y bydd y Cyngor yn neilltuo gofod yn y tir hamdden ar gyfer defnyddio cerbyd o unrhyw ddosbarth, na thybir bod yr is-ddeddf hon yn gwahardd gyrru unrhyw gerbyd sy'n perthyn i'r dosbarth y mae'r lle hwnnw wedi'i neilltuo ar ei gyfer yn y lle hwnnw neu i mewn iddo ar hyd llwybr uniongyrchol o'r fynedfa i'r tir hamdden.

ii. Ni chaniateir i berson, heb esgus rhesymol, reidio beic dwy olwyn, beic tair olwyn na pheiriant tebyg arall yn y tir hamdden, ac eithrio mewn neu ar unrhyw ran o'r tir lle mae:

   a. hawl tramwy i feiciau; neu
   b. lwybr beicio dynodedig.

8. Ni chaniateir i berson a ddaw â cherbyd i mewn i'r tir hamdden ei olwyno na'i osod dros nac ar —

   i. yr un gwely blodau, llwyn, na phlanhigyn, na thir sydd wrthi'n cael ei baratoi i fod yn wely blodau neu ar gyfer tyfu unrhyw goeden, llwyn, neu blanhigyn;
   ii. yr un rhan o'r tir hamdden lle mae'r Cyngor, drwy hysbysfwrdd a gaiff ei roi'n sownd neu ei osod mewn safle amlwg yn y tir hamdden, yn gwahardd ei olwyno neu ei osod.

9. Ni chaniateir i berson yn y tir hamdden reidio na gyrru'r un cerbyd ar gyflymder ac mewn modd a fyddai'n achosi perygl i bersonau eraill yn y tir hamdden neu heb ystyriaeth resymol i bersonau o'r fath.

Rhoi hysbysiadau ac ati yn sownd

10. Ni chaniateir i berson roi'r un poster, placard, na hysbysiad yn sownd yn yr un wal na ffens sydd yn y tir hamdden neu'n ei amgylchynu, nac ar neu'n sownd yn yr un goeden na phlanhigyn, nac ar neu'n sownd yn yr un rhan o'r un adeilad, rhwystr, na rheilen, na'r un sedd, na'r un adeiledd nac addurn arall yn y tir hamdden.

Amddiffyn planhigion

11. Ni chaniateir i berson yn y tir hamdden gerdded, rhedeg, sefyll, eistedd na gorwedd ar —
    i. yr un darn o laswellt na thywyrch, na'r un lle arall lle yr arddangosir rhybudd digonol y dylid cadw oddi ar laswellt, tywyrch neu le arall o'r fath: Ar yr amod na fydd rhybudd o'r fath yn berthnasol i fwy na chwarter arwynebedd y tir hamdden;
    ii. yr un gwely blodau, llwyn, na phlanhigyn, na thir sydd wrthi'n cael ei baratoi i fod yn wely blodau neu ar gyfer tyfu unrhyw goeden, llwyn, neu blanhigyn;

Ymdrochi a llygru

12. Ni chaniateir i berson wneud y canlynol yn y tir hamdden —
    i. ymdrochi, cerdded drwy'r dŵr, neu ymolchi mewn unrhyw lyn, pwll neu nant addurnol, neu unrhyw ddŵr arall;
    ii. baeddu neu lygru unrhyw ddŵr o'r fath yn fwriadol, yn ddiofal neu'n esgeulus.

Cŵn

13. Ni chaniateir i berson beri na goddef i'r un ci sy'n eiddo iddo ef neu dan ei ofal fynd i mewn i'r tir hamdden nac aros yno, oni fydd ci o'r fath dan reolaeth briodol ac yn parhau i fod felly, ac yn cael ei atal yn effeithiol rhag peri niwsans i unrhyw berson, a rhag aflonyddu neu darfu ar unrhyw anifail neu aderyn dŵr, a rhag mynd i mewn i unrhyw ddŵr addurniadol.

Gemau

14. Lle y bydd y Cyngor yn neilltuo unrhyw ran o'r tir hamdden a bennir gan y Cyngor, ac a ddisgrifir mewn hysbysfwrdd a gaiff ei roi'n sownd neu ei osod mewn safle amlwg yn y tir hamdden, at ddiben unrhyw gêm a nodir ar yr hysbysfwrdd, a all, oherwydd y rheolau neu'r modd chwarae, neu er mwyn atal difrod, perygl, neu anghysur i unrhyw berson yn y tir hamdden, olygu y bydd angen, ar unrhyw adeg yn ystod y gêm, i unrhyw ofod mewn unrhyw ran o'r tir hamdden gael ei ddefnyddio gan y chwaraewr neu'r chwaraewyr yn unig — ni chaniateir i berson yn yr un gofod mewn rhan arall o'r tir hamdden chwarae na chymryd rhan yn yr un gêm a nodir felly mewn modd a fyddai'n atal personau nad ydynt yn chwarae neu'n cymryd rhan yn y gêm rhag defnyddio gofod o'r fath.

15. Bydd yn rhaid i berson sy'n defnyddio'r tir hamdden ac sy'n chwarae neu'n cymryd rhan mewn unrhyw gêm y mae unrhyw ofod yn y tir hamdden wedi cael ei neilltuo'n gyfan gwbl ar ei chyfer wneud y canlynol —
    i. peidio â chwarae'r un gêm yn y gofod heblaw'r gêm y mae'r gofod wedi'i neilltuo ar ei chyfer;
    ii. wrth baratoi i chwarae ac wrth chwarae, arfer gofal rhesymol i osgoi ymyrryd yn ormodol ar ddefnydd priodol o'r tir hamdden gan bersonau eraill;
    iii. pan fydd chwaraewyr eraill eisoes yn defnyddio'r gofod, peidio â dechrau chwarae arno heb eu caniatâd;
    iv. lle y bydd y Cyngor wedi caniatáu i'r gofod gael ei ddefnyddio ar gyfer chwarae gêm yn unig, peidio â chwarae yn y gofod hwnnw'n ddim hwyrach na chwarter awr cyn yr amser a bennwyd ar gyfer dechrau'r gêm, oni fydd y person hwnnw'n cymryd rhan yn y gêm honno;
    v. lle y bydd y Cyngor wedi caniatáu i'r gofod gael ei ddefnyddio i chwarae gêm ynddi, ac y bydd y person hwnnw'n cymryd rhan yn y gêm honno, peidio â defnyddio'r gofod am fwy na dwy awr yn ddi-dor, os bydd unrhyw chwaraewr arall neu chwaraewyr eraill yn rhoi gwybod iddo am ddymuniad i ddefnyddio'r gofod.

16. Ni chaniateir i berson yn yr un rhan o'r tir hamdden a all fod wedi cael ei neilltuo gan y Cyngor ar gyfer unrhyw gêm chwarae na chymryd rhan yn yr un gêm pan fydd cyflwr y tir neu reswm arall yn gwneud y rhan honno o'r tir hamdden yn anaddas i'w defnyddio a bod hysbysiad wedi'i osod mewn safle amlwg i wahardd chwarae yn y rhan honno o'r tir hamdden.

Codi adeileddau a gwerthu heb awdurdod

17. Ni chaniateir i berson wneud y canlynol yn y tir hamdden —
    i. ac eithrio fel y darperir o hyn ymlaen, codi unrhyw bostyn, rheilen, ffens, polyn, pabell, bwth, stondin, adeilad, neu adeiledd arall: Ar yr amod na fydd y gwaharddiad hwn yn berthnasol lle y bydd y Cyngor, ar ôl cael cais, yn rhoi caniatâd i godi unrhyw bostyn, rheilen, ffens, polyn, pabell, bwth, stondin, adeilad, neu adeiledd arall, ar yr achlysur ac at y diben a nodir yn y cais;
    ii. hongian, taenu, neu osod unrhyw ddillad neu ffabrigau eraill i'w sychu neu eu gwynnu;
    iii. gwerthu, neu gynnig neu amlygu ar gyfer gwerthu, neu roi ar log, neu gynnig neu amlygu ar gyfer rhoi ar log, unrhyw nwydd neu wrthrych, oni fydd ganddo awdurdod, yn unol â chytundeb â'r Cyngor, neu fel arall wrth arfer unrhyw hawl neu fraint gyfreithlon, i werthu nwydd neu wrthrych o'r fath neu ei roi ar log yn y tir hamdden.

Rhwystro

18. Ni chaniateir i berson yn y tir hamdden rwystro, tarfu, ymyrryd na pheri niwsans yn fwriadol i'r un person arall sy'n defnyddio'r tir hamdden yn briodol, na rhwystro, tarfu, ymyrryd na pheri niwsans yn fwriadol i un o swyddogion y Cyngor sy'n cyflawni ei ddyletswydd yn briodol, na'r un person neu was i berson a gyflogir gan y Cyngor sy'n gwneud unrhyw waith sy'n gysylltiedig â threfnu neu gynnal a chadw'r tiroedd hamdden yn briodol.

Golff

19. Ni chaniateir i berson yn y tir hamdden ddreifio, pitsio na tsipio pêl golff solet ac eithrio ar unrhyw ardal a neilltuwyd gan y Cyngor fel maes golff neu laslawr pytio.

Ceffylau

20. Ni chaniateir i berson, ac eithrio wrth arfer unrhyw hawl neu fraint gyfreithlon, farchogaeth yr un ceffyl yn y tir hamdden ac eithrio yn y tir hamdden o'r enw Tir y Gnoll. Lle y bydd unrhyw ran o'r tir hamdden o'r enw Tir y Gnoll, drwy hysbysiad a fydd wedi'i roi'n sownd mewn safle amlwg yn y tir hamdden, wedi cael ei neilltuo fel gofod lle y caniateir marchogaeth, ni chaniateir i berson, ac eithrio wrth arfer unrhyw hawl neu fraint gyfreithlon, farchogaeth ceffyl yn yr un rhan arall o'r tir hamdden.

Cosb

21. Bydd pob person sy'n troseddu yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau hyn, os caiff gollfarn ddiannod, yn agored i ddirwy o ddim mwy nag ugain punt.

Symud Troseddwyr Ymaith

22. Gall pob person sy'n torri unrhyw is-ddeddf ar gyfer rheoleiddio'r tir hamdden gael ei symud oddi yno gan unrhyw un o swyddogion y Cyngor, neu gan unrhyw gwnstabl, mewn unrhyw un o'r achosion a nodir o hyn ymlaen:
    i. Lle y caiff yr is-ddeddf ei thorri yng ngolwg swyddog neu gwnstabl o'r fath, a bod enw a chyfeiriad y person sy'n torri'r is-ddeddf yn anhysbys i'r swyddog neu'r cwnstabl hwnnw heb fod modd iddo gael gwybod beth yw ei enw a'i gyfeiriad:
    ii. Lle y caiff yr is-ddeddf ei thorri yng ngolwg swyddog neu gwnstabl o'r fath ac, ar sail natur yr achos hwnnw, neu unrhyw ffaith arall y gall y swyddog neu'r cwnstabl fod yn ymwybodol ohoni, neu y gall fod yn gredadwy iddo gael gwybod amdani, mae'n bosibl y bydd sail resymol dros gredu y gall parhad y person a dorrodd yr is-ddeddf yn y tir hamdden arwain at achos arall o dorri is-ddeddf, neu fod symud person o'r fath ymaith o'r tir

hamdden yn angenrheidiol fel arall fel mesur diogelwch ar gyfer defnyddio a rheoleiddio'r tir hamdden yn briodol.

Diwygio

23. Mae'r is-ddeddfau mewn perthynas â'r tiroedd hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd, a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Castell-nedd ar 29 Mai 1975 ac a gadarnhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 28 Medi 1975, drwy hyn yn cael eu diwygio.

ATODLEN

RHAN I

Tiroedd a reoleiddir gan Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875

Maes Chwaraeon Llansawel.
Maes Chwaraeon Heol Dyfed.
Tir y Gnoll.
Parc Jersey.
Maes Chwaraeon Mount Pleasant.
Tiroedd Castell Castell-nedd.
Rhodfa Clarke.
Coedwig Shelone.
Gerddi Victoria.
Gerddi Coffa Rhyfel Castell-nedd.

RHAN II

Tiroedd a reoleiddir gan Adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906

Maes Chwaraeon Brynhyfryd.
Cae Chwarae Cefn Saeson.
Cae Chwarae Cwrt Herbert.
Cae Chwarae Giant's Grave.
Maes Chwaraeon Melincryddan.
Maes Chwarae Plant Pen-y-dre.
Maes Chwarae Plant Price.
Parc Victoria, Llansawel.

RHAN III

Tiroedd lle mae hawl tramwy i feiciau neu lwybr beicio dynodedig

Tir y Gnoll.
Gerddi Coffa Rhyfel Castell-nedd.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**)

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL)

CASTELL-NEDD PORT TALBOT)

yma ym mhresenoldeb:-)



Swyddog Priodol

Gwneir Is-ddeddfau Tiroedd Hamdden ym Mwrdeistref Castell-nedd 1975 (Diwygio) (Rhif 1) 2026 ar 14 Hydref 2026 a byddant yn dod i rym ar 14 Tachwedd 2026.